COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 8 MAI 2024 10:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| N Farr | J E Pratt | HM Williams |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| F D Bletsoe | JPD Blundell | W R Goode | M Lewis |
| T Thomas | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Gebbie a/ac JC Spanswick

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Steve Berry | Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyflogiad |
| Christa Bonham - Griffiths | Rheolwr Strategol - Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp Gwaith Integredig a Chymorth i Deuluoedd |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Stuart Osborne | Team Manager - Just Ask Plus |
| David Wright | Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd |

Datganiadau o Ddiddordeb
Dim

## 45. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol â'r dyddiad 01/02/2024 fel gwir gofnod manwl gywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 8 Mai 2024 |

## 46. Strategaeth Ymadael Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd adroddiad oedd yn darparu'r Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol Cabinet gyda diweddariad o'r strategaeth ymadael Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol (BIP) Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc cymwys sydd wedi bob mewn gofal.<br><br>Gofynnodd un Aelod:<br><br>• Beth yw pwrpas y cynllun peilot<br>• Bwriadau'r Llywodraeth ar gyfer y cynllun, a phe bai hynny'n llwyddiannus, a oedd unrhyw gynlluniau i'w weithredu am gyfnod amhenodol i rai oedd yn gadael gofal.<br><br>Cyfeiriodd at bwynt 3.7 o'r adroddiad yn gofyn am eglurder ynghylch y cynllun a chefnogaeth ar gyfer trosglwyddiad lle roedd taliadau sylfaenol yn dod i ben.<br><br>Holodd yr Aelod hefyd ynghylch deiliadaeth tai y 25 cyfranogwr a gofynnodd a ellid ehangu ar ganlyniadau posib y cynllun.<br><br>Ymatebodd y Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd bod bwriad Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at werthusiad oedd yn edrych ar draweffaith yr hyn roedd y cynllun peilot incwm sylfaenol wedi'i gyflawni i rai oedd yn gadael gofal. Roedd yn rhagdybiaeth y byddai'n rhoi gwybod am gamau oedd i'w cymryd o ganlyniad i'r gwerthusiad hwnnw. Disgwylir i'r Gwerthusiad ddarparu gwell syniad ynghylch beth fyddai cynigion Llywodraeth Cymru.<br><br>Gan gyfeirio at y pwynt ynghylch cynllunio ac edrych ar beth fyddai'n digwydd unwaith y byddai'r taliadau'n |

| | |
|---|---|
| | dod i ben, cyfeiriodd Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd at gynllun llwybr, ac y byddai disgwyl i'w drosglwyddiad fod yn brif agwedd fyddai'n penderfynu ar y ffordd mae'r tîm, y cynghorydd personol, yr hyrwyddwr a'r gweithiwr cymdeithasol yn gweithio'n agos iawn gyda'r person ifanc a phartneriaid eraill er mwyn penderfynu beth fyddai'n ofynnol nesaf. Disgwylir i'r broses hon adnabod unrhyw fylchau oedd yn gysylltiedig gyda hawliadau budd-daliadau, problemau tai, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.<br><br>Mewn perthynas â'r pwynt ynghylch deiliadaeth tai'r 25 o bobl ifanc, datganodd y Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y byddai angen iddynt adrodd yn ôl i'r pwyllgor gan fod cymaint yn byw gartref gydag aelodau o'u teulu ac eraill o fewn llety â chymorth.<br><br>Darparodd y Rheolwr Tîm - Just Ask Plus rai ffigyrau mewn perthynas â deiliadaeth tai presennol:<br><br>• 5 person ifanc yn mynd i fod yn parhau gyda'u gofalwyr maeth wedi iddynt fod yn 18<br>• 11 wedi penderfynu symud i mewn at deulu neu ffrindiau wedi iddynt fod yn 18<br>• 1 person ifanc yn byw mewn hostel<br>• 3 person ifanc mewn llety byw â chymorth<br>• 1 person ifanc yn byw mewn hostel<br>• 5 person ifanc mewn llety rhent.<br><br>Datganodd y Rheolwr Tîm - Just Ask Plus bod tri pherson ifanc ar hyn o bryd o fewn cyflogaeth. Roedd y tri pherson ifanc hynny wedi cynilo eu harian incwm sylfaenol peilot, gydag un ohonynt wedi cynilo £20,000 ac yn gobeithio ei roi tuag at flaendal ar gyfer ei eiddo ei hun.<br><br>Gofynnodd un aelod a oedd yna gyswllt gyda Chyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr, ac ymatebodd y Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd bod yna weithiwr Aml-waith oedd yn rhan o'r gwasanaeth cyflogadwyedd wedi'i osod o fewn y tîm a bod ganddo gysylltiadau agos gyda'r Rheolwr Tîm - Just Ask Plus, yr hyrwyddwr, y gweithwyr cymdeithasol a'r cynghorwyr personol o fewn y gwasanaeth 16 plws. Ychwanegodd y Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd bod gweithdai wedi cael eu cynllunio ar gyfer eu cynnal drwy gydol gwyliau'r haf ar gyfer pobl ifanc, oedd yn ymwneud â'r Gwasanaeth Datblygu Ieuenctid, a oedd yn cyflawni llawer o waith o waith o amgylch addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.<br>Datganodd yn ogystal y byddai'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth ac Adran Gwaith a Phensiynau yn rhan o'r gweithdai. Datganodd bod disgwyl i hyn fod yn gyfle gwirioneddol dda i bobl ifanc dan ofal yr Awdurdod |

| | |
|---|---|
| | Lleol i gael eglurder o ran y gefnogaeth oedd ar gael iddynt naill ai i barhau i fod ym myd addysg, hyfforddiant, cyflogaeth neu gael mynediad i gyfleoedd o gwmpas addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.<br><br>Cynhaliwyd trafodaeth rhwng aelod a'r Rheolwr Tîm Just Ask Plus gyda golwg ar gyngor ariannol annibynnol yn dod ar gael i'r bobl ifanc. Daeth i'r amlwg mai'r unig gyngor ariannol oedd ar gael oedd drwy'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth. Cytunwyd y gallai hyn fod yn ddigonol i rai pobl ifanc ond y gallai eraill gael budd o gyngor ar lefel uwch. Sicrhaodd y rheolwr Tîm os oedd yr angen am ddarparu cyngor ariannol uwch yn cael ei adnabod fel rhan o'u cynllunio llwybr, yna y byddai hyn yn cael ei ddilyn i fyny gan y tîm.<br><br>Gofynnodd Aelod am eglurder ynghylch faint o'r bobl ifanc oedd wedi gadael gofal y Cyngor oedd yn ddi-waith wrth dderbyn cyflog sylfaenol. Datganodd pe bai'n cael ei gyfuno gyda'r isafswm cyflog cenedlaethol, bod unigolion yn derbyn llawer o arian ond gan ddeall y byddai'r incwm yn mynd i ddiflannu pan roedd y cynllun yn dirwyn i ben. Dywedodd ei bod yn bwysig bod y Bobl Ifanc yn archwilio cyngor ar reoli arian gan ei fod yn ymdebygu i sefyllfa lle roedd rhywun yn colli cyflogaeth a fyddai'n arwain at drafferthion ariannol.<br><br>Datganodd y Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theulu mai agwedd allweddol oedd y cynllun llwybr a phwysigrwydd adolygu'r cynllun llwybr hwnnw tra'n ystyried y dewisiadau oedd ar gael. Pwysleisiodd bod rôl y cynghorwr personol neu weithiwr cymdeithasol y Person Ifanc yn hanfodol wrth adolygu'r cynllun hwnnw a gwneud yn siŵr bod y person ifanc yn eglur ynghylch beth oedd eu hawliau, gan wybod beth allent gael mynediad iddo a phwyntiau cyswllt ynghylch pwy fyddai orau i'w cynghori ac i roi arweiniad iddynt. Pwysleisiodd yn ogystal bwysigrwydd, hygyrchedd a'r effaith allai rolau gweithwyr cyflogadwyedd, y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth, Adran Gwaith a Phensiynau eu cael ar bobl ifanc.<br><br>Gofynnodd eu Harweinydd a oedd ffigwr ar gael yn seiliedig ar addysg a chyflogaeth cyn i'r cynllun peilot gael ei lansio. Ymatebodd y Rheolwr Tîm Just Ask Plus fod canlyniad y dadansoddiad a wnaed y flwyddyn flaenorol yn 65%.<br><br>Cafwyd Ymholiad ynghylch y Dangosyddion Perfformiad Allweddol oedd mewn lle er mwyn mesur cynnydd y cynllun. Ymatebodd y Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theulu mai ei ddealltwriaeth efo oedd y byddai'r wybodaeth yn cael ei gasglu o'r traweffaith mae taliad o £1,600 yn ei gael ar berson ifanc sy'n cael mynediad i addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, cartref parhaol a'r math o drefniadau oedd mewn lle i roi cychwyn ar hyn. Dywedodd ei fod yn teimlo ei bod yn bwysig i sicrhau adborth oddi wrth y gwerthusiad nid yn unig ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ond ar draws Cymru gan ddwyn y wybodaeth gerbron y pwyllgor am drafodaeth bellach. Datganodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles bod yr |

| | |
|---|---|
| | Adroddiad Gwerthuso Interim wedi cael ei gyhoeddi gan Brifysgol Caerdydd, lle roedd saith canlyniad o ran traweffaith yn cael ei fesur o ran yr effaith ar bobl ifanc oedd yn cael budd o'r cynllun peilot. Yn benodol, eu lles, llythrennedd a diogelwch Ariannol, cydlyniad ac ymgysylltu cymunedol, traweffaith tlodi, mynediad i'r farchnad waith ac addysg, gwirfoddoli a sgiliau bywyd ac iechyd corfforol a meddyliol. Dywedodd y byddai'n ddefnyddiol rhannu'r adroddiad interim gyda'r pwyllgor ac yna dod â'r adroddiad gwerthuso terfynol yn ei ôl, er mwyn gallu dilyn y cynnydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr mewn perthynas â'u canlyniadau o'i gymharu gyda'r canlyniadau ar gyfer Cymru gyfan.<br><br>PENDERFYNWYD: Cytunwyd y byddai'r adroddiad gwerthuso interim gan Brifysgol Caerdydd yn cael ei rannu gyda'r pwyllgor. Cytunodd y Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol i ystyried a nodi'r strategaeth cynnydd a gadael mewn perthynas â'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 8 Mai 2024 |

**47. Cynllun Cynaliadwyedd 3 Blynedd I Wella Canlyniadau Ar Gyfer Gwasanaethau Plant A Theuluoedd Ym Mhen-y-bont ar Ogwr - Adroddiad Blwyddyn 1 Ar Gynnydd 2023/24**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesadroddiad oedd yn diweddaru'r Pwyllgor ynghylch cynnydd y gwasanaeth tra'n adnabod cerrig milltir ar gyfer gwelliant o fewn y cynllun cynaliadwyedd 3-blynedd er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar ddiwedd Blwyddyn 1, Medi 2023 i fis Mawrth 2024.<br><br>Gwnaeth yr Aelodau yr ymholiadau canlynol:<br><br>• Eglurhad o'r lliwiau ar y statws RAG.<br>• Nifer y staff asiantaeth o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol<br>• Canlyniad Asesiad y Gofalwr, lle roedd anghenion penodol wedi eu hadnabod a lle byddai angen i'r Gwasanaeth gwrdd â'r anghenion hynny<br>• Gwybod sut roedd y Swyddog Cyfathrebu y Cyfryngau yn mynd i fod yn gysylltiedig gyda thîm cyfathrebu'r Cyngor<br>• Beth oedd yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod hyfforddiant staff ynghylch Diogelu yn 100% |

| | |
|---|---|
| | Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles gan egluro'r 'Allwedd' ar statws RAG. Dywedodd hefyd fod y Gwasanaeth wedi symud o 73 o weithwyr asiantaeth ar 13eg o Fawrth 2023 i 50 o weithwyr asiantaeth ar ddiwedd Chwefror 2024, gan arwain at leihad o 41% mewn gweithlu asiantaeth. Mewn perthynas ag asesiadau'r gofalwr, y cyflawniad o 100% wrth gynnig asesiad gofalwr, hoffai'r gwasanaeth wneud gwelliannau sylweddol o ran ymgymryd ag asesiadau gofalwyr. Roeddent yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o annog lefelau uwch o asesiadau. Datganodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles nad oedd yr union ffigyrau ganddi ar adeg y cyfarfod ond y byddai'n sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor yn ddiweddarach. Mewn ymateb i'r ymholiad ynghylch y Swyddog Cyfathrebu Cyfryngau, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles bod y Swyddog wedi'i leoli o fewn y Tîm Cyfathrebu Canolog a bod y rôl yn cael ei hariannu drwy arian wrth gefn oedd wedi'i glustnodi.<br>Mewn perthynas â'r cwestiwn ynghylch hyfforddiant staff ar Ddiogelwch, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cyhoeddus a Lles bod cyflawni 100% yn her o fewn y gwasanaeth oherwydd y galw am gwrdd ag anghenion dyddiol o fewn y gwasanaeth. Dywedodd ei bod yn rhagweld strategaeth hyfforddiant oedd yn adlewyrchu staff yn cael eu hyfforddi mewn diogelwch i'r lefel briodol ar gyfer eu rôl, yn hytrach na gofyn i'r holl staff gael yr hyfforddiant sylfaenol. Dywedodd y byddai hyn yn golygu ystod o newidiadau posib i'r polisi ynghylch Diogelu. Dywedodd hefyd bod mesur cynnydd yn allweddol ac i bob pwrpas byddai'r dull o fesur hefyd yn gorfod cael ei roi ar waith.<br><br>Gofynnodd aelod pa ganran o'r rhai oedd yn gymwys i gymryd rhan oedd wedi gwneud hynny, a pha mor aml oedden nhw'n cwrdd; gofynnodd hefyd am enghraifft o lle roedd gwelliannau wedi'u gwneud i'r gwasanaeth o ganlyniad i gyfarfodydd o fewn y fforwm.<br><br>Ymatebodd y swyddog Rhianta a Chyfranogi Corfforaethol, o safbwynt adborth gwirioneddol bod 36 pwynt cyswllt unigryw gyda phobl ifanc mewn gofal. Dywedodd bod y gwasanaeth yn ofalus ynghylch parchu sut roeddent yn teimlo ynghylch darparu adborth, ond eu bod yn darparu cyfleoedd da i ymuno gyda'r fforwm yn rheolaidd, eu bod yn ymateb i arolygon a bod ganddynt hefyd gyswllt gyda'r gweithiwr cymdeithasol. Crybwyllodd yn ogystal bod gan bobl ifanc oedd â phrofiad o fod mewn gofal fynediad at y swyddog cwynion a chanmoliaeth. Yn ogystal, roedd y tîm wedi cwrdd gyda'r fforwm er mwyn hyrwyddo llais y plentyn ymhellach ac i edrych ar sut all eu rôl gael ei hyrwyddo'n well yn y dyfodol ar gyfer y boblogaeth oedd yn derbyn gofal.<br><br>Gofynnodd aelod am eglurder ynghylch beth oedd pwynt mynediad unigol yn ei olygu. Datganodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod hyn yn berthnasol i'r gwaith ailstrwythuro o amgylch gwasanaethau addysg cymorth cynnar gan y Gyfarwyddiaeth Addysg i'r |

| | |
|---|---|
| | gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a oedd gan hynny yn darparu'r defnyddwyr gyda dau bwynt mynediad gyda'r naill yn berthnasol i'r llall.<br><br>Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch y trefniadau a wnaed o fewn Heddlu De Cymru mewn perthynas ag atgyfeiriadau a godwyd ganddynt hwy nad oeddent wastad yn fater i'r gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Trafodwyd buddion 'Sgrinio ar y Cyd' a dywedodd y Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd bod trafodaethau rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, yr Heddlu, Addysg a Chymorth Cynnar yn digwydd er mwyn penderfynu pa arfer gorau ellid ei fabwysiadu o safbwynt sgrinio ar y cyd.<br><br>PENDERFYNWYD: Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn derbyn ffigyrau cynnydd mewn perthynas ag Asesiadau Gofalwyr. Trafododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed gan y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant yn erbyn y cerrig milltir gafodd eu hadnabod yn y Cynllun Gweithredu 1 Flwyddyn. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 8 Mai 2024 |

**48. Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Faethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Lleoliadau a Darparwr adroddiad oedd yn diweddaru'r Pwyllgor ar ganlyniad Archwiliad Arolygaeth Gofal Cymru (CIW) o Faethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr Tachwedd 2023. Cyflwynwyd yr adroddiad ar y cyd â chyflwyniad ar waith Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr i fynd i'r afael â'r problemau o amgylch capasiti gofal maethu digonol yn y fwrdeistref sirol.<br><br>Datganodd mai un o'r meysydd a amlygwyd gan yr archwilwyr oedd ynghylch y straen ar leoliadau gyda'r niferoedd o blant oedd yn symud ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Nid oedd y ffigyrau ar gael ar yr amser y cynhaliwyd y cyfarfod, fodd bynnag, dywedodd y gallai gadarnhau bod y gwasanaeth wedi gweld lleihad o 47% dros y flwyddyn lle roedd plant wedi profi tri a mwy o symudiadau o ran lleoliad. Roedd y lleihad o bron i hanner ac felly, roedd yn cael ei weld fel darlun oedd yn gwella. Datganodd bod gwaith i'w wneud a bod y gwasanaeth mewn trafodaethau ar hyn o bryd ynghylch sut allent wella eu cynnig i gefnogi gofalwyr maeth ac maent wedi teilwra pecynnau cymorth er mwyn cwrdd ag anghenion unigol plant, sy'n cynnwys edrych ar anghenion hyfforddi cymhleth.<br><br>Gofynnodd un Aelod ynghylch: |

| | |
|---|---|
| | • Y broses oedd yn cael ei dilyn pan oedd gofyn symud plentyn, a oedd penderfyniad i osod gyda theulu a chyfeillion wedi cael ei archwilio ac a oedd Maethu yn cael ei ystyried fel y dewis cyntaf neu'r dewis olaf<br>• Pwy oedd yn gwneud y penderfyniadau mewn perthynas ag ariannu ar gyfer maethu.<br>• Mewn perthynas â symud plant yn ystod maethu, pa gefnogaeth oedd ar gael i ofalwyr maeth oedd yn delio gyda phlant ag ymddygiad heriol.<br><br>Ymatebodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Lleoliadau a Darparwyr drwy ddatgan bod y gwasanaeth wedi cynhyrchu canllawiau ymarferol ar gyfer pob gweithiwr cymdeithasol, gan amlinellu'r camau sydd i'w cymryd wrth symud plentyn. Datganodd bod sawl rheswm dros gynllunio symud fel arfer. Mae gan weithwyr cymdeithasol y cyfle i ymgymryd ag asesiad trylwyr, gan ddiweddaru anghenion y plentyn fel bod arwydd clir o'r gefnogaeth sydd ei hangen, ac yn dilyn hynny, lleoliad a fyddai'n cwrdd â'r anghenion hynny orau, gan alluogi i'r broses baru ddigwydd. Cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc: Mae gweithwyr cymdeithasol yn adolygu systemau teuluoedd mewn ffordd ragweithiol gan fod teuluoedd yn newid dros amser. Fel enghreifftiau, nododd y gallai pobl fod gyda phartneriaid gwahanol, gallai eraill fod â theuluoedd cyfun a theulu cymysg. Mae gweithwyr cymdeithasol yn cynnal adolygiadau mewn ffordd ragweithiol er mwyn penderfynu a oedd unrhyw opsiynau teuluol i blant gan fod canlyniadau i blant yn gwella orau pan fyddant yn cael eu cefnogi i barhau gyda'u teuluoedd, neu gael eu cefnogi i ddychwelyd at eu teuluoedd. Roedd rhai adegau lle roedd gofalwyr maeth yn cael eu paru mewn ffordd briodol er mwyn galluogi plant i gael eu cefnogi yn y tymor byr. Eglurodd bod rhai sefyllfaoedd lle byddai'r broses ar fan cychwyn ac ar ddechrau'r gweithrediadau gofal lle byddai sawl asesiad yn cael ei wneud ar aelodau o'r teulu ac anghenion y plant. Yn aml, felly, byddai gan y gwasanaeth ofalwyr maeth i gefnogi plant yn y tymor byr. Lle nad oedd y gwasanaeth yn gallu dychwelyd plant i ofal aelod o'r teulu, byddant wedyn yn ceisio eu paru gyda gofalwr maeth tymor hir priodol oedd wedi'i gymeradwyo. Mewn ymateb i gwestiwn yr aelodau, cadarnhaodd y Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd bod y gwasanaeth yn edrych i leoli plentyn o fewn rhwydwaith y teulu gan ei bod yn hysbys bod hyn yn darparu canlyniad gwell, ac mai ceisio sicrhau lleoliadau maethu oedd y cam olaf.<br><br>Datganodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Lleoliadau a Darparwyr bod systemau yn eu lle ar gyfer trefniadau ariannu. Byddai'r gweithiwr cymdeithasol oedd yn adnabod y plentyn orau yn ystyried y paru ochr yn ochr ag unrhyw bartneriaid. Yn y lle cyntaf byddai Gweithwyr Cymdeithasol yn penderfynu a oedd yn ddewis posib i berson ifanc a gweld sut allai'r gwasanaethu ei gefnogi orau. Yna byddai'r cynnig yn cael ei drosglwyddo i reolwr tîm ac yna i reolwr hŷn yn dibynnu ar natur y lleoliad y gwnaed cais amdano. Datganodd bod posibilrwydd wedyn i'w flaenoriaethu at sylw pennaeth cynorthwyol y gwasanaeth, lefel cyfarwyddwyr a phennaeth y gwasanaeth os oedd angen. Dywedodd fod yn dibynnu ar y math o leoliad, y |

| | |
|---|---|
| | goblygiadau a gwasanaeth y lleoliad.<br><br>Gofynnodd Aelod pa waith yr ymgymerwyd ag ef er mwyn mapio proffil oedran y cnewyllyn o ofalwyr Maeth gan fod gan Ben-y-bont ar Ogwr ddemograffeg llawer hŷn o ofalwyr maeth ac mai'r disgwyliad oedd y byddai gostyngiad yn y niferoedd. Ymholodd yn ogystal ynghylch pa waith yr ymgymerwyd ag ef i gefnogi pobl ieuengach i ddod yn ofalwyr maeth oherwydd tra ei fod yn waith gwerth chweil yr oedd hefyd yn gallu bod yn gymhleth a hefyd yn anodd ar adegau.<br>Ymatebodd y Rheolwr Grŵp - gwasanaethau Lleoliadau a Darparwyr bod gan Ben-y-bont ar Ogwr swyddog atgyfeirio maethu Cymru o fewn y tîm oedd wedi ymgymryd ag ymarfer mapio ac a oedd wedi amlygu bod y rhan fwyaf o ofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn y cyfwng oedran 50 a mwy, a bod disgwyl i hyn fod yn broblem dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'r Gwasanaeth wedi addasu eu gweithgaredd recriwtio a chadw er mwyn galluogi pobl ieuengach i ddod i mewn i'r maes maethu. Roedd y gwasanaeth hefyd yn ceisio gwella'r pecynnau cefnogaeth oedd ar gael i gefnogi gofalwyr gan eu galluogi hwy i gefnogi plant, gwella'r hyfforddiant oedd ar gael a cheisio ehangu'r gefnogaeth i gwmpasu trefniadau y tu hwnt i'r oriau arferol yn ogystal.<br>Soniodd am eu bwriad i fynd i fwy o fanylder yn ystod y cyflwyniad.<br><br>Gwnaed y cyflwyniad gan Reolwr Datblygu Rhanbarthol Maethu Cymru ar gyfer Cwm Taf Morgannwg.<br>Gofynnodd Aelod ynghylch yr ystyriaethau a wnaed o safbwynt gwarchod data, gyda'r ap cyflwyniadol y disgwylid iddo fod ar gael ar-lein. Gofynnodd yn ogystal a oedd y data a gasglwyd yn cael ei ddefnyddio i reoli anghenion emosiynol plentyn neu unrhyw anghenion eraill o fewn y system ysgol. Eglurodd y Rheolwr Datblygu Rhanbarthol bod yr Ap yno i yn bennaf i fod o fudd i'r plentyn a'i fod yn fodd o ddod i wybod eu teuluoedd maethu drwy eu proffiliau.<br>Dywedodd y Rheolwr Grŵp - gwasanaethau Lleoliadau a Darparwyr mai un o'r rhannau allweddol o'r ddogfen a ddefnyddid wrth gynnal chwiliad i benderfynu ar leoliad ar gyfer plant oedd yr hyn a elwir yn atgyfeiriad Cymru Gyfan. Rhan o'r ffurflen hon oedd cip ar fywyd y plentyn a lle roedd yn bosib, byddai'n cael ei gwblhau yng ngeiriau'r plentyn ei hun. Ymgynghorwyd gyda Chomisiynwyr Ifanc yn ei gylch a'r wybodaeth oedd angen ei chynnwys a'r iaith oedd angen ei defnyddio. Dywedodd bod gan gyngor Ben-y-bont ar Ogwr ffordd o roi proffiliau plant i mewn i chwiliadau lleoliadau mewn ffordd oedd yn canolbwyntio ar y plentyn a'u bod yn darparu hwnnw i ofalwyr i gyd-fynd gydag atgyfeiriadau Cymru Gyfan. Dywedodd eu bod yn defnyddio templed o'r enw 'Y Cyfan Amdanaf Fi' lle roedd y plant y plant eisiau cyfrannu gwybodaeth.<br>Byddai gweithiwr Cymdeithasol yn eistedd gyda'r plant ac yn cwblhau'r ddogfen gyda hwy. Roedd gan y plant ddewis o wneud darluniau, siarad am eu diddordebau penodol, a diddordebau amser hamdden. Er nad oedd gan Ben-y-bont ar Ogwr y dechnoleg hyd yma, roedd yna systemau yn eu lle yn barod i alluogi |

| | |
|---|---|
| | pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses baru a chanfod ar gyfer eu lleoliad.<br><br>PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol y byddai'n nodi canlyniad Archwiliad Arolygaeth Gofal Cymru (CIW) o Faethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr a'r gwaith oedd yn symud yn ei flaen a fyddai wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i sicrhau gwelliant o ran nifer digonol ofalwyr maeth o fewn y fwrdeistref sirol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 8 Mai 2024 |

**49. Diweddariad y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar Bobl Ifanc sydd wedi Profiad o Ofal**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd Rheolwr Strategol - Cyfiawnder i'r Ifanc adroddiad oedd yn diweddaru'r Pwyllgor ar ddarpariaeth Gwasanaeth Cyfiawnder i'r Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr (BYJS) oedd ar gael ar gyfer plant oedd â phrofiad o fod mewn gofal oedd yn mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.<br><br>Datganodd mai un o brif nodau'r gwasanaeth oedd sefydlu llwybrau er mwyn gwella canlyniadau i'r plant hynny oedd fwyaf mewn peryg o ymddygiad troseddol neu ymddygiad oedd yn gysylltiedig â niwed.<br>Nod y gwasanaeth oedd sicrhau bod plant rhwng oedran 10 a 18 a oedd mewn perygl o droseddu, yn cael eu hadnabod a bod cynllun asesu trylwyr a llwybr ar gyfer y plant hynny oedd yn dod i mewn i'r gwasanaeth yn cael ei lunio er mwyn ceisio lleihau'r troseddu hwnnw. Soniodd fod gan y gwasanaeth gyfrifoldeb i gydymffurfio gyda Chynllun Strategol Cyfiawnder i'r Ifanc, a oedd yn gynllun tair blynedd, a hefyd i gydymffurfio gyda fframweithiau megis Glasbrint Cyfiawnder i'r Ifanc ar gyfer Cymru, a oedd yn bennaf yn canolbwyntio ar blentyn fel bod yn blentyn yn gyntaf, ac mai eilbeth oedd bod yn droseddwr. Er mwyn sicrhau hyn, bwriad y gwasanaeth oedd ceisio dargyfeirio'r plant hynny rhag cael eu stigmateiddio gan droseddu.<br><br>Canmolwyd y tîm Cyfiawnder i'r Ifanc gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Dai am y cynnydd a wnaed. Dywedodd fod y cynnydd hwnnw yn llwyddiant y tîm yn gysylltiedig gyda'r ffaith mai dyma'r unig Wasanaeth Cyfiawnder i'r Ifanc yng Nghymru oedd yn derbyn arian gan Lywodraeth y DU. |

| | |
|---|---|
| | Cyfeiriodd Aelod at farwolaeth carcharor 17 oed yng Ngharchar y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar gan wneud ymholiad ynghylch pa waith oedd yn cael ei wneud gan yr uned Troseddau Ieuenctid er mwyn delio gyda'r pryderon cynyddol ynghylch carcharorion yng Ngharchar y Parc.<br><br>Ymatebodd y Rheolwr Grŵp (Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc) bodcwmni G4S yn rhan o Fwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder i'r Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr, oedd yn fod i gwrdd ar y diwrnod wedi'r cyfarfod pwyllgor a bod y Gwasanaeth yn ceisio sicrhau diweddariadau ar lefel strategol gyda golwg ar geisio cael sicrwydd. Ychwanegodd y Rheolwr Strategol, Cyfiawnder i'r Ifanc bod ymarferydd hŷn wedi cael ei benodi yn benodol gan fod Pen-y-bont ar Ogwr angen darparu cynllunio diogelwch ar gyfer yr holl blant dan ofal y gwasanaeth. Bu i'r ymarferydd gwrdd yn rheolaidd gyda gweithwyr cymdeithasol dynodedig eraill ar draws y sir er mwyn trafod achosion a chynllunio diogelwch. Dywedodd tra bod llawer o sylw yn cael ei roi i Garchar y Parc ar y funud, roedd ardal pobl ifanc yn y cyfleuster yn un cadarnhaol o ran yr hyn allai'r gwasanaeth ei weld.<br><br>Ychwanegodd y Cadeirydd a'r Arweinydd bod ei swyddfa ef wedi ysgrifennu at y Gweinidog oedd yn gyfrifol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â'r marwolaethau hynod drist yng Ngharchar y Parc. Maent wedi derbyn ymateb ac yn parhau gyda'r drafodaeth. Roeddent yn ceisio sicrhau cyfarfod brys gyda Llywodraethwr y carchar er mwyn trafod mesurau oedd yn cael eu rhoi yn eu lle er mwyn gwneud y carcharorion mor ddiogel â phosib, yn arbennig felly ar gyfer pobl ifanc oedd yn preswylio yno. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, mewn perthynas â rôl y gyfarwyddiaeth fel yr awdurdod diogelu, bod ganddynt ran i'w chwarae ynghylch unrhyw broblemau oedd yn gysylltiedig gydag unigolion oedd mewn perygl o gael eu niweidio, boed yn blant neu oedolion. Mae'r Gwasanaeth yn symud achosion diogelu unigol yn eu blaen ar gyfer unrhyw un sy'n preswylio am gyfnod yng Ngharchar y Parc yn union fel y byddent yn ei wneud ar gyfer rhannau eraill o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Canmolodd y Cadeirydd a'r Arweinydd y broses o alluogi troseddwyr ifanc i ymgymryd â gwaith yn y gymuned, gan roi'r cyfle felly iddynt deimlo synnwyr o bwrpas a gwerth. Cytunodd y Rheolwr Strategol - Cyfiawnder i'r Ifanc mai un o'u prif gyfrifoldebau oedd sicrhau bod anghenion dioddefwyr hefyd yn cael eu cwrdd yn unol â chod ymarfer dioddefwyr. Wedi hynny, gofynnwyd iddynt p'un a fyddent yn dymuno cymryd rhan mewn cyfle adferol. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Cytunodd Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol y dylid nodi cynnwys yr adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 8 Mai 2024 |

**50. Materion Brys**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 8 Mai 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon
Rhan 1
Rhan 2

Daeth y cyfarfod i ben am 12:41.